INSHOU55

Datblygu a chynnal perthynas â darparwyr gwasanaethau, grwpiau cymunedol ac asiantaethau yn y gymuned ehangach i gynorthwyo cynhwysiant cymdeithasol

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu a chynnal perthynas â darparwyr gwasanaethau perthnasol, grwpiau cymunedol ac asiantaethau yn y gymuned ehangach i gynorthwyo cynhwysiant cymdeithasol. Mae hefyd yn golygu hyrwyddo gwasanaeth eich sefydliad i'r gymuned ehangach a chynyddu eu dealltwriaeth ohono.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi darparwyr gwasanaethau, grwpiau cymunedol ac asiantaethau sy'n berthnasol i'r gwasanaeth a ddarperir gan eich sefydliad
2. datblygu a chynnal perthynas â darparwyr gwasanaethau perthnasol yn y gymuned ehangach
3. cyfrannu mewn grwpiau, asiantaethau a gwasanaethau cymunedol a gweithio gyda nhw yn y gymuned ehangach
4. cynorthwyo cynhwysiant cymdeithasol ar gyfer eich cleientiaid drwy ymgysylltu'n ehangach â'r gymuned
5. gweithio gyda darparwyr gwasanaethau, grwpiau cymunedol ac asiantaethau i ychwanegu gwerth at wasanaeth eich sefydliad ac ehangu'r cyfleoedd i gleientiaid
6. cynorthwyo cleientiaid i ddefnyddio darparwyr gwasanaethau, grwpiau cymunedol ac asiantaethau i integreiddio neu ail-integreiddio eu hunain yn y gymuned ehangach
7. hyrwyddo gwasanaeth eich sefydliad i ddarparwyr gwasanaethau, grwpiau cymunedol ac asiantaethau i gynyddu eu mynediad ato
8. cynorthwyo'r gymuned ehangach i ddeall gwasanaethau eich sefydliad fel ffynhonnell cymorth arbenigol
9. cynorthwyo'r gymuned ehangach i gynyddu ei hadnoddau
10. cynorthwyo cydweithio rhwng eich sefydliad a darparwyr gwasanaethau, grwpiau cymunedol ac asiantaethau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y ffyrdd perthnasol o nodi darparwyr gwasanaethau, grwpiau cymunedol ac asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan eich sefydliad
2. y dulliau perthnasol o ddatblygu a chynnal perthynas â darparwyr gwasanaethau perthnasol y tu allan i'ch sefydliad
3. y dulliau perthnasol o gyfathrebu â darparwyr gwasanaethau yn y gymuned ehangach
4. y gwahanol fathau o gydweithio â darparwyr gwasanaethau, grwpiau cymunedol ac asiantaethauy dulliau perthnasol ar gyfer sicrhau cynhwysiant cymdeithasol eich cleientiaid a thrwy ymgysylltu'n ehangach â'r gymuned
5. egwyddorion perthnasol cynhwysiant cymdeithasol a'u heffaith ar ddarparu eich gwasanaeth sefydliadol
6. y gwahanol ffyrdd o weithio gyda darparwyr gwasanaethau, grwpiau cymunedol ac asiantaethau i ychwanegu gwerth at wasanaeth eich sefydliad i gleientiaid
7. y gwahanol ffyrdd y gall cleientiaid integreiddio neu ail-integreiddio i'r gymuned ehangach
8. rôl darparwyr gwasanaethau, grwpiau cymunedol ac asiantaethau wrth gynorthwyo cleientiaid i integreiddio neu ail-integreiddio yn y gymuned ehangach
9. y dulliau perthnasol o hyrwyddo gwasanaeth eich sefydliad i ddarparwyr gwasanaethau, grwpiau cymunedol ac asiantaethau
10. y gwahanol ffyrdd o annog darparwyr gwasanaethau, grwpiau cymunedol ac asiantaethau i wneud mwy o ddefnydd o wasanaeth eich sefydliad
11. y cymorth arbenigol perthnasol y mae eich sefydliad yn ei roi i'r gymuned ehangach
12. sut i gyflwyno'r cyfraniad y mae'r gwasanaethau a ddarperir gan eich sefydliad yn ei wneud i'r gymuned ehangach
13. sut mae eich sefydliad yn cyfrannu at gynyddu adnoddau yn y gymuned ehangach

INSHOU55

Datblygu a chynnal perthynas â darparwyr gwasanaethau, grwpiau cymunedol ac asiantaethau yn y gymuned ehangach i gynorthwyo cynhwysiant cymdeithasol

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2019
Indicative Review Date	Ionawr 2024
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	ASTH303
Galwedigaethau perthnasol	Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr; Cynorthwy-ydd Tai; Cynorthwy-ydd Cymdogaeth; Gweinyddwr Tai; Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo; Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio); Trafodwr Gosod Llety; Cynorthwy-ydd Refeniw; Cynorthwy-ydd Atgyweirio
Cyfres/Set	Tai
Geiriau Allweddol	eiddo; ymchwilio; delio; torri cytundeb; llety; tenantiaeth; trwydded; lesddeiliad; cytundebau; cwsmeriaid; dogfennaeth; diogelwch; cymorth; deddfwriaeth; cydraddoldeb; amrywiaeth; diogel; trefnu; cymuned ehangach; grwpiau cymunedol;